## GWYBODAETH I YMGEISWYR: PRIF HWYLUSYDD SHERBETS LLAWRYDD

Awst 2026

Annwyl Ymgeisydd

Dyma becyn cais ar gyfer swydd Prif Hwylusydd Sherbets yn Theatr y Sherman. Diolch yn fawr am eich diddordeb yn y swydd.

Bob wythnos, daw plant rhwng 4 – 8 oed i'n sesiynau Sherman Sherbets i ddatblygu hyder, dysgu sgiliau newydd, gwneud ffrindiau a mwynhau. Yn Sherbets, mae rhyngweithio, datrys problemau a chreu perthnasau yr un mor bwysig â datblygu sgiliau. Mae'r **Prif Hwylusydd Sherbets** yn gyfrifol am gynllunio a chynnal y sesiynau wythnosol yma, gyda chefnogaeth ein tîm Ymgysylltu Creadigol, gan sicrhau bod Theatr y Sherman yn parhau i fod yn lleoliad ble gall bobl ifanc ffynnu mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Rydym yn chwilio am Brif Hwylusydd y gall ein helpu i gryfhau ein cynnig i blant ifanc gyda rhaglen amrywiol a chyffrous o weithgareddau, gan gynnwys gwahanol ddisgyblaethau perfformio a helpu'r plant i ddatblygu sgiliau adrodd straeon.

Yn Theatr y Sherman, rydyn ni'n dychmygu byd sy'n cael ei wneud yn decach, yn fwy tosturiol, yn fwy unedig gan rym theatr. Rydyn ni'n benderfynol bob dydd i gyflawni'r weledigaeth yma. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy greu a churadu cyd-brofiadau theatr byw sy'n ysbrydoli pobl o bob cefndir ledled y de-ddwyrain i greu byd gwell, yn eu ffordd eu hunain. Rydyn ni'n credu bod mynediad at greadigrwydd a hunanfynegiant yn hawl, ac rydyn ni bob amser yn ymdrechu i sicrhau bod gan bawb gyfle i gael eu cyfoethogi gan gelfyddyd theatr.

Drwy ganolbwyntio ar ddatblygu a chynhyrchu gwaith newydd, ac ar feithrin artistiaid sy'n byw neu sy'n dod o Gymru, rydyn ni'n bwerdy i theatr Cymru. Rydyn ni'n adrodd straeon o Gymru sy'n berthnasol i'r byd drwy ein cynyrchiadau Crëwyd gan y Sherman, sydd wedi'u creu o dan ein to ni yma yng nghanol Caerdydd. Rydyn ni'n lle i bawb, sy'n creu cyfleoedd i ddinasyddion y de-ddwyrain ymwneud â'r theatr drwy waith ymgysylltu ysbrydoledig sy'n llawn gweledigaeth.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydyn ni wedi mynd o nerth i nerth gyda chydnabyddiaeth drwy wobrau cenedlaethol, canmoliaeth gan y beirniaid i'n gwaith a drwy gynyddu maint ein cynulleidfaoedd. Mae ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd a'n cymunedau yn dal i fod wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud, ac mae'r swydd hon yn chwarae rhan hanfodol o ran sicrhau bod y sefydliad yn rhedeg mor esmwyth â phosib i alluogi hynny.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

disability confident
COMMITTED

Rydyn ni am i Theatr y Sherman fod yn hygyrch i bawb, felly mae'n hollbwysig i ni bod ein tîm yn y theatr yn adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ar draws y ddinas a'r tu hwnt. Rydyn ni'n aelod o'r cynllun Hyderus o ran Anabledd ac yn croesawu'n arbennig ymgeiswyr o gymunedau ethnig amrywiol a chymunedau Byddar ac anabl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein tîm ar hyn o bryd.

I wneud cais am y swydd, llwythwch y ffurflen gais, y daflen eglurhaol a'r ffurflen monitro cyfle cyfartal i lawr o'n gwefan: www.shermantheatre.co.uk/jobs/ a'u hanfon i recruitment@shermantheatre.co.uk. Plis nodwch ba rôl yr ydych yn ymgeisio amdano ar eich ffurflen ymgeisio. Yn unol â'n polisi amgylcheddol, dim ond yn electronig rydyn ni'n ymdrin â cheisiadau. Y dyddiad cau yw **dydd Llun y 24ain o Awst 9yb.** Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais dros e-bost.

Ein gobaith yw cynnal cyfweliadau **ddydd Iau 27ain Awst**. Rhowch wybod i ni, ar daflen flaen y cais, a fyddech ar gael i gael cyfweliad ar y dyddiadau yma fel y byddwn yn gwybod mewn da bryd os bydd angen i ni wneud trefniadau eraill ar gyfer unrhyw ymgeiswyr fydd ar y rhestr fer.

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch cyn i chi wneud cais, cysylltwch â ni drwy recruitment@shermantheatre.co.uk

Diolch i chi am eich amser gyda'r cais. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at gael clywed gennych, ac at ystyried sut bydd eich sgiliau, eich profiadau a'ch angerdd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'n gwaith.

Pob lwc gyda'ch cais

Yn gywir

Julia Barry
Prif Weithredwr
Theatr y Sherman

# PRIF HWYLUSYDD SHERBETS: TROSOLWG O'R SWYDD

Mae Theatr y Sherman yn dymuno penodi Prif Hwylusydd i gynllunio a chynnal ein rhaglen Sherman Sherbets, a fydd yn darparu sesiynau dychmygol a diddorol i blant ifanc i'w helpu i ddatblygu hyder, i ryngweithio ac i adeiladu sgiliau adrodd straeon.

Bydd y swydd yn gweithio'n agos gyda Hwylusydd Cynorthwyol y Sherbets, yn ogystal â chydweithwyr yn yr Adran Ymgysylltu Creadigol. Bydd gweithgareddau'n cynnwys gweithdai wythnosol a pherfformiadau rheolaidd ble gall aelodau berfformio o flaen ffrindiau a theulu. Cynhelir sesiynau bob dydd Sadwrn yn ystod tymhorau ysgol. Mae ein mintai Sherbets yn cynnwys dau grŵp: Sherbets 1 (4 – 6 oed) sy'n cyfarfod o 10yb – 11yb, a Sherbets 2 (6 – 8 oed) sy'n cyfarfod o 11yb – 12.30yp.

Yn y gorffennol, nid ydym wedi pwysleisio'r defnydd o offerynnau cerddorol, canu neu ddawnsio yn y sesiynau, ond yr hoffem ymgorffori mwy o weithgareddau o'r fath yma fel rhan o'n cynnig i aelodau Sherbets. Oherwydd hyn, rydym yn enwedig yn croesawu ceisiadau oddi wrth hwyluswyr gyda sgiliau ar draws fwy nag un ddisgyblaeth berfformio.

## Prif Hwylusydd Sherbets: Manylion Cytundebol

| | |
|---|---|
| **Cyflog:** | £30 yr awr |
| **Tymor:** | Mae'r swydd yn cael ei chynnig fel swydd llawrydd |
| **Oriau:** | 2.5 awr bob wythnos (heb gynnwys gwyliau ysgol) yn ogystal ag amser cynllunio |
| **Cyfnod rhybudd:** | 1 wythnos |
| **Hawl i weithio:** | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennaeth o dan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006. |
| **Geirdaon:** | Bydd unrhyw gynnig cyflogaeth yn amodol ar gael geirdaon sy'n foddhaol i Theatr y Sherman. |
| **Dyddiad dechrau:** | Medi 2026. |

**Mae'r swydd hon yn amodol ar wiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac mae hi ar agor i ymgeiswyr sy'n 18 oed neu'n hŷn.**

# DISGRIFIAD SWYDD: PRIF HWYLUSYDD SHERBETS

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Prif Hwylusydd Sherbets |
| **YN ADRODD I'R:** | Pennaeth Ymgysylltu Creadigol |
| **PERTHNASAU GWAITH ALLWEDDOL:** | Hwylusydd Cynorthwyol y Sherbets a staff yn y tîm Ymgysylltu Creadigol |
| **YN GYFRIFOL AM:** | Does dim aelodau o staff cefnogol wedi'u dosbarthu i'r swydd yma |

## PRIF GYFRIFOLDEBAU:

- Cynllunio a chynnal sesiynau diddorol sy'n galluogi aelodau i ddatblygu eu sgiliau perfformio, gan gynnwys hyder, siarad cyhoeddus, cymeriadu, meddwl creadigol, symudiad a dealltwriaeth gerddorol.
- Paratoi'r plant at berfformiadau anffurfiol rheolaidd ar gyfer teulu a ffrindiau.
- Cynnal diogelwch yr aelodau yn ystod sesiynau gan gyfarfod â nhw yn y Foyer o flaen llaw, sicrhau eu bod wedi'u hebrwng gan aelod o staff sydd â gwiriad DBS wrth iddynt symud o gwmpas yr adeilad, a chynllunio gweithgareddau addas a hygyrch ar gyfer bob grŵp.
- Cyfathrebu'n rheolaidd gyda thîm Ymgysylltu Creadigol Theatr y Sherman o ran cynnydd y grwpiau ac unrhyw anghenion arbennig ar gyfer sesiynau. Efallai bydd y rhain yn cynnwys gofyniadau am adnoddau wedi'u printio a phropiau, neu'r defnydd o offerynnau cerddorol mewn sesiynau.
- Mynychu hyfforddiant diogelu rheolaidd a gweithredu'r wybodaeth yma mewn sesiynau.
- Darparu presenoldeb cynnes, proffesiynol a dibynadwy i'r plant a'u rhieni/gwarchodwyr pan fod y plant yn cyrraedd ac yn gadael, a thrwy gydol bob sesiwn.

## MANYLEB YR UNIGOLYN: PRIF HWYLUSYDD SHERBETS

### HANFODOL

- *Diddordeb mewn datblygiad addysgol plant ifanc a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd hunanfynegiant creadigol*
- *Diddordeb mewn gweithio gyda phlant o oed ysgol gynradd*
- *Profiad o arwain gweithdai drama neu berfformio*
- *Gwerthfawrogiad o'r effaith a gâi rhaglenni a mentrau cyfranogol yn y celfyddydau*
- *Sgiliau cyfathrebu ardderchog gyda phlant ac oedolion, a'r gallu i greu perthnasau positif gyda phobol o wahanol oedrannau a chefndiroedd*
- *Y gallu i ymddwyn â disgresiwn wrth ddelio â materion cyfrinachol*
- *Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm*
- *Ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth diwylliannol*
- *Tosturi, amynedd ac empathi*
- *Ymrwymiad i gadw'n gyfredol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf yn ymwneud â'r meysydd penodol sydd wedi'u nodi yn nisgrifiad y swydd*

### DYMUNOL

- *Y gallu i gynnwys cerddoriaeth a/neu symudiad fel rhan o'r sesiynau*
- *Y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg*
- *Dealltwriaeth neu brofiad o weithio gyda phlant niwroamrywiol*
- *Dealltwriaeth o addysg ysgol gynradd a sut y gall weithgareddau allgyrsiol gefnogi addysgu ffurfiol a/neu ddarparu cyfleoedd i blant y tu hwnt i'r hyn y profwyd mewn ysgolion*
- *Profiad o weithio mewn theatr*
- *Tystysgrif Cymorth Cyntaf*